# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD LLUN, 27AIN IONAWR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**NODER**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 17 Ionawr 2025)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (9)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Iwan Huws | R Medwyn Hughes | Elin Hywel |
| Ioan Thomas | | |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Pughe Roberts | John Brynmor Hughes |

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Cyfetholedig (2)

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Wyn Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Councillor Goronwy Owen Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024 /25

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024 / 25

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 25ain o Dachwedd fel rhai cywir

**7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** 9 - 56

I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru

**8. CYMERADWYO CYLLIDEB 2025/26** 57 - 58

I gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi..

**9. ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA** 59 - 64

I nodi cynnydd ac amcanion y dyfodol

**10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2024-25 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 65 - 71

Y ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

**11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y

datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau ac felly am y rhesymau yma mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

## 12. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO- ADRODDIAD 01.07.2024 - 30.09.2024

I ystyried yr adroddiad

(copi i'r Aelodau yn unig).

**PWYLLGOR PENSIYNAU 25-11-2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**

Stephen Churchman, Richard Medwyn Hughes (Cadeirydd), Iwan Huws, Elin Hywel, Ioan Thomas, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy) a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Hywel Eifion Jones (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)
Ben Hughes (Archwilio Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Pughe Roberts a John Brynmor Hughes

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC. Tynnwyd sylw at drafodaethau cyfarfod Medi 2024 o'r Cydbwyllgor oedd yn cynnwys gwybodaeth am y cronfeydd sydd wedi eu pwlio (Gwynedd yr ail uchaf gyda 85%), y cynllun busnes safonol a'r gofrestr risg.

Cyfeiriwyd at ddiweddariad y Gweithredwr dros y cyfnod ac amodau'r farchnad maent yn monitro. Adroddwyd bod perfformiad y cronfeydd wedi bod yn amrywiol gyda'r cronfeydd ecwiti yn perfformio yn gryf tra bod cronfeydd incwm sefydlog wedi llusgo dros y chwarter dan sylw. Nodwyd mai buddsoddiadau tymor hir yw'r cronfeydd ac y bydd y swyddogion, ar y cyd gyda'r ymgynghorwyr Hymans Robertson, yn asesu'r perfformiadau dros gyfnodau o 3 mis, 12 mis a 3 blynedd.

Ategwyd bod Russell Investments, y Rheolwr buddsoddi hefyd yn asesu'r rheolwyr yn barhaus a byddant yn lleihau, cynyddu neu'n dileu taliadau i geisio gwella perfformiad hir dymor yr is- gronfeydd - cyfeiriwyd at enghraifft o waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gydag is gronfa Global Growth, sydd wedi bod yn tanwario yn hanesyddol. Adroddwyd bod Russell Investments wedi rhoi diweddariad ar gronfa newydd Credit Preifat gyda Chronfa Pensiwn Gwynedd wedi buddsoddi £29m yn y gronfa gyda bwriad o gynyddu'r swm yn sylweddol dros amser.

Tynnwyd sylw at ddau ymarfer caffael oedd wedi digwydd yn ddiweddar (ar gyfer Ymgynghorydd Goruchwylio a Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu). Nodwyd bod cyfweliadau wedi eu cynnal gyda bwriad cyflwyno argymhelliad i'r cydbwyllgor nesaf.

Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad 'Galw am Dystiolaeth' lle mae Llywodraeth San Steffan yn adolygu cynlluniau pensiwn yr LGPS, tynnwyd sylw at ymateb Cronfa Bensiwn Gwynedd. Adroddwyd bod y sefyllfa bellach wedi newid gydag ymgynghoriad pellach, yn dilyn araith "Mansion House" Canghellor y Trysorlys, wedi ei gyhoeddi yn galw am dystiolaeth sy'n awgrymu'n fras y trywydd mae Llywodraeth San Steffan yn disgwyl i'r LGPS ei ddilyn. Adroddwyd bod yr ymgynghoriad newydd yn edrych ar feysydd megis pwlio asedau, buddsoddi yn lleol ac yn y Deyrnas Unedig, a Llywodraethu gyda 30 cwestiwn i ymateb iddynt erbyn 16eg o Ionawr 2025.

Prif negeseuon yr ymgynghoriad oedd nad oedd newid i gronfeydd lleol, fel Cronfa Bensiwn Gwynedd, ond bod angen ystyried uno cronfeydd, er nad yn fandadol. Nodwyd y bydd newidiadau disgwyliedig i'r pwls, megis Partneriaeth Pensiwn Cymru yng nghyd-destun Gwynedd, gyda gofyn iddynt fod wedi cofrestru gyda'r FCA (Financial Conduct Authority), fod yn gallu rhoi cyngor i'r cronfeydd lleol, fod y dyraniad ased strategol yn eistedd gyda'r pŵl yn hytrach nac ar lefel lleol fel y mae ar hyn o bryd, bod 100% o asedau yn cael eu pwlio, ac adrodd yn barhaus yn yr Adroddiad Blynyddol ar gynlluniau lleol.

Ategwyd bod y gofyniad i fod wedi cofrestru gyda'r FCA yn un sylweddol fydd yn golygu newid yn strwythur presennol PPC gan greu strwythur rheolaethol newydd gyda phrif swyddog a phrif swyddog buddsoddi gofynion llywodraethu. Nodwyd y byddai angen cynllunio a gweithredu hyn erbyn Mawrth 2025. Yn ychwanegol, bydd gofynion llywodraethu newydd yn galw am benodi swyddog uwch i fod yn gyfrifol am y Gronfa gan sicrhau bod polisïau penodol mewn lle a phroses gadarn i fonitro hyn.

Yn sgil newidiadau sylweddol posib i'r pŵl, adroddwyd y bydd swyddogion Gwynedd yn cydweithio gyda'r awdurdod lletyol i ddarparu ymateb teg i'r ymgynghoriad; bydd unrhyw wybodaeth / ymateb yn cael ei rannu gyda'r Aelodau

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau;

- Dylai Cymru aros fel un pŵl - dyma beth fyddai cryfder pŵl Cymru. Petai Cymru yn gorfod ymuno gydag eraill - materion gwleidyddol yn deillio o hyn

Mewn ymateb, nodwyd bod yr ymgynghoriad yn awgrymu bod posibilrwydd i Gymru aros fel pŵl cyn belled a bod eglurhad / cynllun busnes cryf a hyfyw yn cael ei gyflwyno yn cefnogi hyn.

- Bwriad Llywodraeth San Steffan yw'r pwlio. Angen cadw pŵl Cymru yn annibynnol - datblygiad y pŵl yng Nghymru wedi bod yn llyfn a naturiol ac wedi datblygu yn llwyddiannus ac ar y blaen i eraill. Os gorfod uno gydag eraill, posib colli rheolaeth a'r cyfleoedd buddsoddi yn lleol.

- Cyfleoedd buddsoddi yn lleol - angen mwy o fanylion am y broses o gyflwyno prosiectau - awgrym rhannu gwybodaeth am y broses gyda Chynghorau  Conwy a Môn
- Awgrym cynnal sesiwn wyneb yn wyneb fel bod modd i'r aelodau gael cyfle i rannu syniadau / ystyried posibiliadau / trefniadau buddsoddiadau lleol, i'w rhoi ymlaen yn y cynllun busnes. Bydd rhaid cael cynllun strategol, manwl
- Bwrdd Pensiwn yn pryderu am y sefyllfa pwlio - pŵl Cymru yn un bach - efallai bydd hyn yn wendid ac y byddai risg o ddisgyn i gategori 'lleiaf'
- Angen pwysleisio bod pŵl Cymru yn gwasanaethu aelodau drwy'r Gymraeg - risg o golli hyn os bydd rhaid ymuno ag eraill - angen pwysleisio hyn yn yr ymateb
- Bod Cadeirydd y Pwyllgor yn rhannu pryderon y Pwyllgor gyda'r Cydbwyllgor

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chronfeydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac os fel Cymru mewn sefyllfa o orfod cyflwyno achos busnes, nodwyd bod y gwledydd hyn gyda rheoliadau gwahanol ac nad oeddynt wedi datganoli yn yr un modd a Chymru.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

**6. FFORWM BUDDSODDI STRATEGOL BUDDION DIFFINIEDIG**

**Cyflwynwyd adborth a gwybodaeth gan y Cyng. Goronwy Edwards**

Cynhaliwyd y Fforwm Buddsoddi yn Loch Lomond, Medi 2024 a bu i'r Cyng. Goronwy Edwards a'r Cyng. John Brynmor fynychu'r fforwm. Nodwyd bod y gynhadledd wedi bod yn fuddiol ac wedi ei amseru yn dda o ystyried Adolygiad Pensiynau Llywodraeth San Steffan (Galw am Dystiolaeth).

Diolchwyd am yr adborth

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

**8. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.04.2024 - 31.06.2024**

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn cyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad a mynegwyd pryder unwaith eto gan yr Aelodau am safon gwaith ymgysylltu ac ymgynghori'r cwmni. Nodwyd, er bod nifer o elfennau positif yn eu gwaith, bod elfennau negyddol mawr i'w gweld hefyd ac felly angen sicrhau i'r dyfodol bod mwy o wybodaeth am ddatblygiadau a sut maent yn cael eu mesur. Ategwyd bod y cwmni yn ymddangos yn 'dawel' - angen gweld mwy o rannu barn ac arweiniad; y cwmni angen tystiolaethu effeithiolrwydd a gosod cyd-destun.

Mewn ymateb nodwyd bod bwriad, wrth lunio cytundebau i'r dyfodol, bod PPC am sicrhau bod elfen ragweithiol yn rhan o'r cyfrifoldebau ymgysylltu, ynghyd a gofynion cyflwyno gwybodaeth glir a dealladwy. Nodwyd bod angen i PPC adolygu trefniadau ymateb i'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i wneud y gorau o'r berthynas.

Sylwadau pellach yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod angen ystyried materion bioamrywiaeth yn ogystal â materion hinsawdd
- Bod angen monitro'r sefyllfa gan sicrhau bod y cwmni yn cadw at eu gair
- Bod angen sicrhau camau nesaf i faterion sydd yn ymddangos fel *'closed non-effective'*. Sut mae modd ail agor trafodaethau / ail edrych ar y materion hyn?
- Bod trefn mewn lle i ddilyn i fyny ar faterion

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben 10:45

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **27 IONAWR 2025** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMELLIAD | **DERBYN A NODI Y WYBODAETH** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 10 Rhagfyr 2024. Mae’r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o’r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o’r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi’i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30 Medi 2024.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn wyth o’r un ar ddeg is-gronfeydd ac ar 30 Medi 2024 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £446.6m**
- **Twf Byd- Eang- £419.0m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £62.9m**
- **Goddefol Byd-Eang - £451.7m**
- **Credyd Aml Ased - £240.3m**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £412.3m**

- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £233.3m**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £324.6m**

## 4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEDI 2024

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn atodiad 4.

Cododd ecwitïau byd-eang a marchnadoedd incwm sefydlog yn y trydydd chwarter. Ar ôl dechrau sigledig oherwydd pryderon dirwasgiad, atgyfnerthodd cyfranddaliadau ar ddata economaidd ac arwyddion mwy calonogol gan Gadeirydd y Federal Reserve (Fed) Jerome Powell y byddai cyfraddau llog yn cael eu gostwng yn fuan iawn. Gweithredodd y banc canolog ar hyn gyda thoriad cyfradd anferth o 50-pwynt sail (bps) ym mis Medi. Bu hwb pellach i ecwitïau gan fesurau newydd yn Tsieina gyda'r nod o adfywio'r economi gwan. Ar wahân i weithredoedd y Fed, fe dorrodd Banc Lloegr (BoE) ei gyfradd llog allweddol o 25 bps ym mis Awst. Gostyngodd Banc Canolog Ewrop gyfraddau ym mis Medi tra bod Banc Canada wedi torri ei gyfradd llog allweddol 25 bps ddwywaith dros y chwarter. Ar y llaw arall, cododd Banc Japan ei gyfradd llog meincnod i 0.25%, ei uchaf mewn 15 mlynedd. Cwympodd y cynnyrch ar draws economïau mawr wrth i dwf gwydn yn yr Unol Daleithiau a chwyddiant calonogol greu positifrwydd. Gwanhaodd doler yr Unol Daleithiau yn erbyn y rhan fwyaf o arian cyfred, yn sgil symudiad y Fed ar gyfraddau llog. Er gwaethaf tensiynau geo-wleidyddol, syrthiodd prisiau olew yng nghanol pryderon am alw gwan, diwedd ar doriadau cynhyrchu gwirfoddol a symudiadau gan Sawdi Arabia i anghofio ei darged pris crai.

Mae perfformiad yr is-gronfeydd y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi ynddynt yn cael eu monitro gan swyddogion, ac fel rhan o'r adolygiad buddsoddi chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes unrhyw bryderon wedi eu codi. Mae Russell Investments hefyd yn asesu'r rheolwyr yn barhaus yn eu portffolio a byddant yn lleihau, yn cynyddu neu'n dileu eu daliadau i geisio gwella perfformiad tymor hir yr is-gronfa.

## 5. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT

Mae mwyafrif o brif raglenni buddsoddiadau'r marchnadoedd preifat bellach wedi eu lansio –Isadeiledd, Credyd Preifat ac Ecwiti Preifat. Mae'r rheolwyr Eiddo wedi'u penodi, ac maent ar hyn o bryd yn edrych ar sefydlu'r rhaglenni buddsoddi Eiddo.

## 6. CAFFAEL

Mae 2 ymarfer caffael newydd ar y gweill, gyda'r adroddiadau argymhellion wedi eu cymeradwyo gan y CBLl yn Rhagfyr 2024. Mae'r cyfnod herio wedi'i gwblhau, a gellir cadarnhau'r penodiadau canlynol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Ymgynghorydd Goruchwylio –Hymans Robertson wedi'i ail- benodi.
- Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu –Robeco wedi'i ail- benodi.

## 7. YMGYNGHORIAD CPLlL: ADDAS AR GYFER Y DYFODOL

Ym mis Tachwedd 2024, cyflwynodd y Canghellor ei haraith Mansion House, a oedd yn nodi cynlluniau i hybu twf economi'r DU. Ochr yn ochr â'r cyhoeddiadau hyn, cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfennau amrywiol gan gynnwys ymgynghoriad o'r enw 'Addas ar gyfer y Dyfodol' ar ddiwygio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

Diwygio pŵlio asedau CPLlL yw un o brif thema'r ymgynhgoriad a:

- Bydd yn ofynnol i'r Gronfa drosglwyddo'r holl asedau gan gynnwys asedau 'liquid a legacy' i reolaeth y pŵl erbyn 31 Mawrth 2026.
- Bydd yn ofynnol i'r Gronfa ddirprwyo gweithrediad y strategaeth fuddsoddi i'r pŵl yn llawn.
- Bydd y Gronfa yn cadw'r penderfyniad ar yr amcanion buddsoddi lefel uchel, a gall benderfynu ar ddyraniad yr asedau strategol i 9 dosbarth asedau lefel uchel os yw'n dymuno, neu ddirprwyo'r penderfyniad hwnnw i'r pŵl.
- Bydd yn ofynnol i'r Gronfa gymryd ei brif gyngor buddsoddi ar ei strategaeth fuddsoddi gan y pŵl.
- Bydd y gronfa'n parhau i osod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol.
- Bydd angen i bob pŵl CPLlL fod yn gwmnïau rheoli buddsoddiadau sydd wedi'u cofrestru a'u rheoleiddio gan yr FCA. Nid yw Partneriaeth Pensiwn Pensiwn Cymru yn endid sydd wedi'i gofrestru gan yr FCA ac felly mae angen sefydlu cwmni buddsoddi o fewn y pŵl.
- Mae'n ofynnol i'r pŵl i weithio gyda'r cronfeydd i ddarparu adroddiad i'r llywodraeth erbyn 1af Mawrth 2025 yn manylu sut maent yn bwriadu darparu'r model arfaethedig a chwblhau'r trosglwyddiad asedau i'r pŵl.

Mae gweithgor llywio sy'n cynnwys uwch swyddogion o bob awdurdod cyfansoddol a gefnogir gan Hymans Robertson wedi cael ei sefydlu er mwyn ystyried oblygiadau'r ymgynghoriad hwn. Crëwyd ffrydiau gwaith hefyd i reoli ac ymchwilio i'r gwahanol feysydd.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru a Chronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 16 Ionawr 2025. Gellir gweld ymateb Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 5.

## 8. ARGYMHELLIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth.

# Partneriaeth Pensiwn Cyru (PPC) – Diweddariad CBLl

Dyddiad cyfarfod CBLl: Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2024

Lleoliad: Rhithiol drwy Zoom

Cadeirydd: Cyng Elwyn Williams, Dyfed

| **Eitem agenda** | **Manylion** |
|---|---|
| Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Medwyn Hughes, Gwynedd. Mynychodd Cynghorydd Elin Hywel yn ei absenoldeb. |
| Diweddariad yr Awdurdod Lletya | Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor a chamau/blaenoriaethau nesaf PPC.<br><br>Soniodd Anthony bod yr ymgynghoriad CPLl: Addas ar gyfer y dyfodol wedi ei dderbyn, a mae swyddogion wedi cwrdd gyda MHCLG ac y Trysorlys a mae gwaith yn parhau rhwng swyddogion a Hymans i baratoi ymateb drafft.<br><br>Soniwyd hefyd bod PPC wedi llwyddo i ennill gwobr Arloesedd ESG yn seremoni Gwobrau Buddsoddi LGC 2024. Roedd yr enwebiad hwn mewn perthynas ag is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy.<br><br>Dyddiadau CBLl sydd i ddod:<br>• 12 Mawrth 2025 – Hybrid, cynhelir gan Abertawe<br>• 16 Gorffennaf 2025 – rhithiol drwy Zoom<br>• 17 Medi 2025 – Hybrid, cynhelir gan Torfaen<br>• 8 Rhagfyr 2025 – rhithiol drwy Zoom<br>• 10 Mawrth 2026 – Hybrid, cynhelir gan Gaerdydd<br><br>Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2024/25 ar 30 Medi 2024 (ynghlwm). |
| Cofrestr Risg<br>Adolygiad<br>Chw4 2024 | Y OWG sy'n gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn chwarterol. Mae gan yr OWG Is-Grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg ac adolygiadau chwarterol o'r ddogfen. |

| | |
|---|---|
| | Yn ystod Ch4 2024, cynhaliwyd adolygiad o'r Risgiau Buddsoddi. Adolygodd yr is-grŵp risg G.15 hefyd - nid yw'r PPC yn barod ar gyfer canlyniadau unrhyw ymgynghoriad neu newid rheoleiddiol.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adran ddiweddaraf o'r Gofrestr Risg a gymeradwywyd gan y CBLl. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i llwytho i fyny ar wefan PPC. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch1 2025 a bydd yn canolbwyntio ar risgiau G.1 i G.7 o'r adran Llywodraethu a Risgiau Rheoleiddio. |
| Adolygiadau polisi – Polisi Ail-gydbwyso a Newid | Mae'r PPC wedi cymeradwyo nifer o bolisïau / cynlluniau sydd i'w hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter hwn, mae'r OWG wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisi Ail-gydbwyso a Newid.<br><br>Mae’r polisi ail- gydbwyso a newid yn nodi dull PPC o ailgydbwyso’r asedau a ddelir o fewn is-gronfeydd y pŵl. Mae'r polisi yn amlinellu'r fframwaith sydd wedi'i roi ar waith i sicrhau bod dyraniadau rheolwyr o fewn is-gronfeydd yn cael eu monitro a'u cydbwyso lle bo hynny'n briodol. Yn ystod yr adolygiad hwn, mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i ystyried:<br>• Mae'r is-gronfa Twf Byd-eang bellach yn cael ei rheoli gan Russell Investments (mae cyfeiriad at Waystone fel Rheolwr Portffolio sawl rheolwr wedi cael ei ddileu – pwynt rhif 11 cyn hynny).<br>• Lawnsio mandadau Eiddo (pwynt 13).<br><br>Cymeradwywyd y polisi diweddaru ac mae wedi'i ddiweddaru ar y wefan. |
| Diweddariad Gweithredwr | Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddaru chwarterol ar 30 Medi 2024 (ynghlwm). Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am is-gronfeydd WPP a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu. |
| Adroddiadau Perfformiad 30 Medi 2024 | Cyflwynodd Russell Investments bapur crynodeb perfformiad Ch3 2024 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024. |
| **Eitem Eithriedig** – Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan preifat o’r cyfarfod. | |
| | |

| | |
|---|---|
| Adroddiad<br>Benthyca Stoc<br>30 Medi 2024 | Dechreuodd benthyca stoc ym mis Mawrth 2020 a chyflwynodd Northern Trust yr Adroddiad Benthyca Stoc ar gyfer Ch3 2024 (chwarter yn gorffen 30 Medi 2024). |
| Adroddiad Ymgysylltu<br>Robeco - Ch3 2024 | Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco ei wasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Ch3 2024. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer y chwarter hwn oedd Gweithrediadau Llafur mewn Byd Ôl-Covid-19. |
| Adroddiada Buddsoddi Cyfrifol a Risg hinsawdd | Bob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol chwarterol a Risg Hinsawdd ar gyfer is-gronfeydd PPC.<br><br>Ar gyfer Ch3 2024 (chwarter yn dod i ben 30 Medi 2024), cynhyrchwyd adroddiadau ar gyfer y cronfeydd Cyfleoedd y Du a Marchnadoedd Datblygol.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLl. |
| Adroddiad argymhelliad ar gyfer caffael cwmni Pledleisio ac ymgysylltu | Bydd contract presennol y darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu â Robeco yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae proses werthuso fanwl wedi'i chynnal, a chyflwynwyd adroddiad argymhelliad i'r CBLl ar y cynigydd a ffefrir.<br><br>Cymeradwyodd y CBLl yr adroddiad argymhelliad yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract Darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu. |
| Adroddiad argymhelliad ar gyfer caffael Ymgynghorydd Goruchwylio | Daw'r contract Ymgynghorydd Goruchwylio presennol gyda Hymans Robertson i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae proses werthuso fanwl wedi'i chynnal, a chyflwynwyd adroddiad argymhelliad i'r CBLl ar y cynigydd a ffefrir.<br><br>Cymeradwyodd y Cydbwyllgor yr adroddiad argymhelliad yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'r Contract Ymgynghorydd Goruchwylio. |

Dolen gweddarlledu ar gyfer cyfarfod JGC 10 Rhagfyr 2024 isod:

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mawrth, 10fed Rhagfyr, 2024, 10.00 yb]

Cyfeiriad gwefan WPP Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mawrth 12 Mawrth 2025 – Cyfarfod hybrid, cynhelir gan Abertawe Swansea



# Cynllun Busnes

# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# 2024-2025

# Adolygiad Ch2

# (Ebrill i Medi 2024)

## Llywodraethu

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Proses gaffael yr Ymgynghorydd Goruchwyliol | Yn mynd rhagddo | I'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024 |
| • Proses gaffael darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu | Yn mynd rhagddo | I'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024 |
| • Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau PPC | Parhaus | |
| • Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg | Parhaus | |
| • Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad | Parhaus | |

## Datblygiad parhaus i'r Is-gronfeydd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Lansio'r rhaglenni buddsoddi eiddo tirol | Yn mynd rhagddo | |
| • Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol | Parhaus | |
| • Ystyriaeth o ofynion Ffyniant Bro / gofynion effaith y Bartneriaeth | Parhaus | |
| • Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen | Parhaus | |
| • Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol | Parhaus | |

## Gwasanaethau Gweithredwr

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Cwblhau proses caffael contract a gweithredu contract gweithredwr newydd | Yn mynd rhagddo | Cytundeb newydd i ddechrau ym mis Rhagfyr 2024 |
| • Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa | Parhaus | |

## Buddsoddiadau ac Adrodd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat | Yn mynd rhagddo | Opsiynau adrodd yn cael eu hystyried ar gyfer marchnadoedd preifat |
| • Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD | Yn mynd rhagddo | Adroddiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y broses o gael ei ddatblygu |
| • Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth | **Do** | **Adroddiad 2023/24 wedi gyflwyno 31 Hydref 2024** |
| • Ystyried adroddiadau ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol | Parhaus | |
| • Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad yr Is-gronfeydd buddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd | Parhaus | |
| • Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog) | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025 |
| • Adolygu cyflwyniad gwasanaeth Russell Investment o ran cyflawni amcanion y Bartneriaeth ar draws yr Is-gronfeydd | **Do** | **Adroddiad i'w rannu gyda'r GS ac aelodau'r CBLl** |

| | | |
|---|---|---|
| • Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau ESG /Buddsoddi Cyfrifol a'u huchelgeisiau hinsawdd | Parhaus | |

## Cyfathrebu a Hyfforddiant

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol | Do | Adroddiad wedi'i gyflwyno yn y CBLl ym mis Gorffennaf 2024 ac wedi'i gyhoeddi ar y wefan |
| • Llunio cynllun hyfforddi blynyddol PPC | | I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025 |
| • Llunio diweddariad blynyddol PPC | Do | Cyhoeddwyd diweddariad blynyddol 2023/24 ym mis Awst 2024 |
| • Llunio adroddiad blynyddol PPC | Yn mynd rhagddo | Adroddiad blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi cyn ddiwedd y flwyddyn |

## Adnoddau, cyllideb a ffioedd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025 |
| • Llunio cyllideb flynyddol PPC | | I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2025 |
| • Adolygu a monitro ffïoedd gweithredwr / darparwr allanol | Parhaus | |

## Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2024-25 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2024-2025 a'r cynnydd hyd yma:

| | **Cwblhawyd** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| • Buddsoddiadau cyfun y Bartneriaeth | Do | 18 Mehefin 2024 |
| • Trosolwg o ddiogelwch seibr ac ystyriaeth i'r Bartneriaeth | Do | 18 Mehefin 2024 |
| • Polisiau - Polisi Buddsoddi Cyfrifol | Do | 18 Hydref 2024 |
| • Polisiau - Polisi Risg Hinsawdd | Do | 18 Hydref 2024 |
| • Polisiau - Polisi Stiwardiaeth | Do | 18 Hydref 2024 |
| • Buddsoddi Cyfrifol - Cynllunio iath Sero Net | Do | 28 Tachwedd 2024 |
| • Buddsoddi Cyfrifol - Metrigau Hinsawdd | Do | 28 Tachwedd 2024 |
| • Cynnydd Cronfeydd CPLlL eraill a Cyfleoedd i Gydweithio | | |
| • Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd | | |

## Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2024-2025:

| | Cyllideb 2024-2025 £000 | Rhagolygon 2024 – 2025 £000 | Amrywiaethau 2024 - 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lletya * | 231 | 200 | 31 |
| Ymgynghorwyr Allanol * | 1,411 | 1,411 | 0 |
| **CYFANSWM i'w ail-godi** | **1,642** | **1,611** | **31** |
| | | | |
| Gwasanaethau Gweithredwr ** | 40,734 | 40,734 | 0 |
| Gwasanaethau Dyranwr ** | 7,006 | 7,006 | 0 |
| **CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau** | **47,740** | **47,740** | **0** |

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol.*

Buddsoddiadau

## Is-gronfeydd Ecwiti

- ***Cronfa Twf Byd-eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £2 biliwn*
- ***Cronfa Cyfleoedd Byd-eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £2 biliwn*
- ***Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn*
- ***Cronfa Marchnadoedd Datblygol***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn*
- ***Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £1.2 biliwn*

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

- ***Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.4 biliwn*
- ***Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn*
- ***Cronfa Credyd Aml-ased***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn*
- ***Cronfa Credyd Byd-Eang***
  Rheolir gan: Russell Investments
  Gwerth y Portffolio: £0.8 biliwn*
- ***Cronfa UK Credit***
  Rheolir gan: Waystone Management (UK) Ltd
  Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn*

## Marchnadau Preifat

- ***Seilwaith – caeedig***
  Rheolir gan: GCM Grosvenor
- ***Seilwaith - penagored***
  Rheolir gan: CBRE, IFM and Octopus
- ***Credyd Preifatt***
  Rheolir gan: Russell Investments
- ***Ecwiti Preifat***
  Rheolir gan: Schroders Capital

* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

Partneriaeth Pensiwn Cymru

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

# Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru
## Adolygiad Ch3 2024 - 10 Rhagfyr 2024



# Diweddariadau Corfforaethol

Fel y trafodwyd, yn dilyn y Cydbwyllgor Llywodraethu diwethaf ar 18 Medi 2024:

Mae WMUK yn nodi blwyddyn ers cwblhau caffael busnesau Datrysiadau Cronfeydd Cyswllt (LFS) pan groesawyd dros 600 o gydweithwyr newydd i Waystone. Mae heddiw hefyd yn nodi gadael y Gytundeb Gwasanaeth Trosiannol (TSA) gyda Link Group yn llwyddiannus a chwblhau'r cyfnod pontio terfynol, ac rydym yn ystyried y siwrne a ddaeth â ni yma.

Flwyddyn yn ôl, cychwynnodd Waystone ar ei gaffaeliad mwyaf a mwyaf cymhleth hyd yma. Roedd integreiddio LFS yn ymrwymiad sylweddol i'r Grŵp - un a oedd yn mynnu cydweithredu ar draws timau ac ymrwymiad diwyro i lwyddiant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom fudo 636 o ddefnyddwyr i amgylchedd technoleg Waystone, trosglwyddo 168 o geisiadau, a gadael 100% o'r gwasanaethau TSA. Roedd y TSA yn allweddol wrth sicrhau parhad busnes yn ystod y cyfnod hwn, ac rydym yn falch o ddweud ein bod yn gadael ar amser ac o fewn y gyllideb.

Mae ein presenoldeb yn y DU wedi cryfhau, mae ein cynnig yn Iwerddon wedi ymestyn ac ôl troed estynedig yn fyd-eang wedi ei helaethu gyda sefydlu ein swyddfa newydd yn India. Nid lleoliad newydd yn unig yw'r swyddfa hon, mae'n symbol o'n twf i'r dyfodol, ein cyrhaeddiad byd-eang, a'n galluoedd gwell.

Mae ein hymroddiad wedi gosod Waystone ar gyfer cam nesaf ei dwf a'r cyfleoedd. Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn hyderus y bydd y caffaeliad hwn, ynghyd â chwblhau gadael y TSA yn llwyddiannus, yn arwydd o garreg filltir yn esblygiad parhaus Waystone.

# Diweddariadau'r FCA

Mae cynllun busnes yr FCA yn edrych ar eitemau allweddol. Caiff diweddariad rheoleiddio llawn ei gyflwyno i'r Awdurdod Lletya yn fisol, ond gellir ei gael trwy gofrestru i'w dderbyn ar wefan Waystone. [Diweddariadau DU/UE Archives - Waystone yn Cydymffurfio]

| Teitl | Amseru | Effaith WMUK | Effaith PPC |
|---|---|---|---|
| Mae'r FCA yn nodi mesurau dros dro i gwmnïau ar reolau cynaliadwyedd 'enwi a marchnata' | Ar unwaith | Canolig | Canolig |
| SDR: Ymateb yr FCA i gwestiynau IA ar hyblygrwydd dros dro | Ar unwaith | I nodi | I nodi |
| FCA: Trefn ddatgelu a labelu cynaliadwyedd – labeli y gellir eu lawrlwytho | Ar unwaith | Canolig | Canolig |
| IA SDR Nodyn Briffio 4 - Cronfeydd heb eu labelu | Ar unwaith | I nodi | I nodi |



waystone

# Diweddariad Busnes

## Goruchwylio Trydydd Bartïon Ch3-24

| | Gweithgaredd | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | Asiantaeth Drosglwyddo – Northern Trust | ✓ | Transfer Agency Inc. Adolygiad Dyletswydd Defnyddwyr i ddechrau yn Ch4 2024. Yr adolygiad i gynnwys yr holl swyddogaethau delio a phrosesu gan NT. (Gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd 2024 wedi ei uno ag adolygiad arall), dyddiad i'w gadarnhau. |
| | Gweinyddu'r Gronfa – Northern Trust | ✓ | Cwblhawyd adolygiad o weinyddiaeth y Gronfa yn Ch1 2024.<br><br>Roedd yr Adroddiad Terfynol yn cynnwys 2 ganfyddiad Uchel, 8 Canolig ac 1 Isel.<br><br>Dim canfyddiadau penodol ar gyfer PPC.<br><br>Noder: Nid yw WMUK yn rhannu manylion y canfyddiadau y tu allan i WMUK. |
| | Ymweliadau Diwydrwydd Dyladwy - Northern Trust | ✓ | Dim ymweliadau wedi'u cynllunio yn y Chwarter hwn.<br><br>Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol yn Ch2-24, gyda dau ganfyddiad sgôr Canolig nad ydynt yn rhai PPC yn benodol. Y casgliadau i'w cyhoeddi gyda gwybodaeth reoli chwarterol. |
| | Ymweliadau Diwydrwydd Dyladwy - Russell Investments | ✓ | Dim ymweliadau wedi'u cynllunio yn y Chwarter hwn. |

**Status key:**

- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable



Dosbarthiad: Cyfrinachol

waystone

# GWERTH IS-GRONFEYDD Y BARTNERIAETH AR 30 MEDI 2024

| **Ecwitïau** | |
|---|---|
| **Cronfa** | **AUM** |
| Twf Byd-eang | £3,574,932,571 |
| Cyfleoedd Byd-eang | £3,371,982,493 |
| Cyfleoedd y DU | £756,679,466 |
| Marchnadoedd Datblygol | £272,530,311 |
| Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy | £1,629,982,561 |
| Is-gyfanswm | £9,606,107,402 |
| | |
| **Incwm Sefydlog** | |
| **Cronfa** | **AUM** |
| Credyd Aml-ased | £849,991,039 |
| Credyd Byd-eang | £1,055,250,188 |
| Bondiau Llywodraeth Byd-eang | £508,977,752 |
| Bond Enillion Absoliwt | £552,082,493 |
| Credyd Sterling | £724,312,494 |
| Is-gyfanswm | £3,690,613,966 |
| | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau Actif** | **£13,296,721,368 ar 30 Medi 2024** |

# GWERTH IS-GRONFEYDD A CHANRAN PERCHNOGAETH Y BARTNERIAETH AR 30 MEDI 2024


| Enw'r gronfa | Gwynedd | Powys | Clwyd | Abertawe | Caerdydd | Torfaen | RHCT | Dyfed | Cyfanswm yr Is-gronfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Twf Byd-eang PPC WS** | **£419,035,900** | **£74,976,989** | | | **£175,130,370** | | **£1,762,616,858** | **£1,143,172,454** | **£3,574,932,571** |
| **Cronfa Ecwitïau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS** | **£446,579,764** | | | **£1,215,648,110** | **£550,012,494** | **£664,369,403** | **£495,372,722** | | **£3,371,982,493** |
| **Cronfa Cyfleodd y DU PP Cymru WS** | | | | | **£156,356,893** | **£600,322,573** | | | **£756,679,466** |
| **Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS** | **£62,912,625** | **£16,040,374** | | | **£120,985,820** | **£72,591,492** | | | **£272,530,311** |
| **Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS** | **£324,603,056** | **£75,646,350** | **£374,655,501** | **£232,750,703** | **£145,470,581** | **£174,583,553** | **£116,384,292** | **£185,888,525** | **£1,629,982,561** |
| **Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS** | **£240,283,695** | **£35,135,782** | **£338,768,077** | **£70,757,393** | **£165,046,092** | | | | **£849,991,039** |
| **Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS** | **£233,326,728** | **£28,267,124** | | | **£190,627,886** | **£266,165,818** | | **£336,862,632** | **£1,055,250,188** |
| **Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS** | | | | | **£244,017,397** | **£264,960,355** | | | **£508,977,752** |
| **Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS** | **£412,246,010** | **£67,312,973** | | **£72,523,510** | | | | | **£552,082,493** |
| **Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS** | | | | | | | **£724,312,494** | | **£724,312,494** |
| **Cyfanswm yr Awdurdod Cyfansoddol** | **£2,138,987,778** | **£297,379,592** | **£713,423,578** | **£1,591,679,716** | **£1,747,647,533** | **£2,042,993,194** | **£3,098,686,366** | **£1,665,923,611** | **£13,296,721,368** |

| Enw'r gronfa | Gwynedd | Powys | Clwyd | Abertawe | Caerdydd | Torfaen | RHCT | Dyfed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Twf Byd-eang PPC WS** | 12% | 2% | | | 5% | | 49% | 32% |
| **Cronfa Ecwitïau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS** | 13% | | | 36% | 16% | 20% | 15% | |
| **Cronfa Cyfleodd y DU PP Cymru WS** | | | | | 21% | 79% | | |
| **Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS** | 28% | 4% | 40% | 8% | 20% | | | |
| **Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS** | 23% | 6% | | | 44% | 27% | | |
| **Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS** | 22% | 3% | | | 18% | 25% | | 32% |
| **Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS** | | | | | 48% | 52% | | |
| **Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS** | 75% | 12% | | 13% | | | | |
| **Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS** | | | | | | | 100% | |
| **Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS** | 20% | 5% | 23% | 14% | 9% | 11% | 7% | 11% |


# Braslun o'r Gronfa Medi 2024 - Ecwitïau

Allwedd:
- Dyfed
- Powys
- Gwynedd
- RHCT
- Torfaen
- Clwyd
- Abertawe
- Caerdydd


## Twf Byd-eang





## Cyfleoedd Byd-eang





## Cyfleoedd y DU




## Marchnadoedd Datblygol





## Ecwiti Actif Cynaliadwy




# Braslun o Gronfa Medi 2024 - Incwm Sefydlog


## Credyd Sterling





## Credyd Byd-eang





## Credyd Aml-ased




## Bondiau Llywodraeth Byd-eang




## Bondiau Enillion Absoliwt




Tud. 31

# Diweddariad Is-gronfeydd

## Lansio Cronfeydd a Newidiadau

| | Gweithgaredd | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Lansiadau a Newidiadau a Gwblhawyd** | N/a | | N/a |
| | Newid Rheolwr Buddsoddi ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang, o Waystone i Russell Investment | ✓ | Mae'r Rheolwr Buddsoddi yn newid o Waystone i Russell Investment ar y gronfa Twf Byd-eang, a gymeradwywyd gan Bwll PPC yn y GS diwethaf ym mis Gorffennaf 2024. Dechreuodd gwaith Llywodraethu ac Adnau WMUK yn syth ar ôl cyfarfod mis Gorffennaf gyda chyfarfodydd grŵp gyda WMUK, RI a NT wedi'u sefydlu. Llinell amser lawn wedi ei darparu i'r Lletywr ('Host') gyda 4 Tachwedd yn ddyddiad byw. Ar hyn o bryd ar y targed gyda chymeradwyaeth yr FCA wedi ei roi. |
| | Tynnu Artemis o'r Gronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy | ✓ | Mae Artemis wedi cyhoeddi bod y tîm rheoli portffolio presennol wedi gadael. Roedd y strategaeth yma yn gyfrifol am £118m (neu 8.8% o Gronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS, ar 29 Rhagfyr 2023. RI i ddirwyn amlygiad i ben ar draws y mandad cyn gynted â phosib. RI yn cynllunio i ail-ddyrannu enillion yn gyfartal i ddwy strategaeth arall sy'n canolbwyntio ar dwf, Mirova a Neuberger Berman.<br><br>Mae hyn wedi mynd drwy Llywodraethu a Gwasanaeth Adneuo WMUK, gan gymeradwyo'r newid. Bydd y symud yn dod i rym o'r 11 Gorffennaf 2024. Hysbysiad Buddsoddwyr wedi ei gyhoeddi ar 4 Gorffennaf 2024 i bob Awdurdod Cyfansoddol. |

Status key:
- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# Parhad diweddariad yr is-gronfeydd......

| Lansio Cronfeydd a Newidiadau | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Statws** | **Sylwadau** |
| **Lansiadau a Newidiadau a Gwblhawyd** | N/a | | N/a |
| | Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS - Newid Is-reolwr, gan ddileu Western ar gyfer Coolabah | ✓ | Gostyngodd pwysau Western i tua 1% o'r is-gronfa ac mae'r enillion yn symud i'r rheolwyr eraill yn yr is-gronfa, Fidelity, MetLife a Robeco, yn ogystal â dyraniadau llai i gronfa hylifedd yr is-gronfa. Mae'r digwyddiad hwn yn benllanw proses adolygu rheolwr parhaus RI lle oeddent eisoes yn gweithio tuag at opsiynau newydd ar gyfer Western. Mae'r digwyddiadau diweddar gyda SEC wedi cyflymu'r broses hon. Newid yw mynd trwy Awdurdodau Llywodraethu a Chyfansoddol WMUK a'r Lletywr i'w gymeradwyo ym mis Hydref. Ar ôl ei gymeradwyo, symud ymlaen gydag adneuwyr ac yna ffeilio FCA i'w gymeradwyo. Edrych i weithredu ym mis Rhagfyr. |
| | Cronfa Bond Enillion Absoliwt WS Cymru - Newid Is-reolwr, dileu Insight ar gyfer Oaktree a DNCA. | ✓ | Mae penderfyniad RI i gymryd lle cronfa Insight yn y Bond Enillion Absoliwt yn dilyn adolygiad helaeth o strategaeth Insight a'r bydysawd rheolwr ehangach. Gyda Oaktree a DNCA wedi'u nodi oherwydd eu argyhoeddiad uwch, ffocws mwy arbenigol mewn marchnadoedd credyd a chyfraddau / FX yn y drefn honno. Cyflwyno Oaktree ar bwysau o 15% a DNCA ar bwysau o 24% i'r gronfa. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r pwysoliad i'r rheolwyr presennol, Aegon a Wellington, y daeth yr is-gronfa i ganolbwyntio mwy arnynt yn sgil tynnu Putnam i ffwrdd yn 2023. |

Status key:
- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# Diweddariadau'r Farchnad

| Diweddariadau'r Farchnad | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Statws** | **Sylwadau** |
| **Rwsia / Wcráin** | Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd | ✓ | Mae WMUK yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol am unrhyw ddatblygiadau. Mae ein Pwyllgor Prisio Gwerth Teg yn trafod yn rheolaidd, ac mae asedau yn dal i gael eu prisio'n unol â hynny. Dim un o Gronfeydd PPC yn dal unrhyw gwmnïau o Rwsia. |
| **Y Dwyrain Canol** | Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Israelaidd. | ✓ | Ar hyn o bryd 4 o'r gwarannau a ddelir mewn cwmnïau o Israel ar draws dwy is-gronfa;<br>Cronfa Cyfleoedd Byd-eang - 3 chwmni gyda 0.27% o amlygiad.<br>Cronfa Twf Byd-eang – 1 cwmni gyda 0.08%.<br><br>Cyfanswm gwerth tua £12.4m. (0.09% Cyfanswm yr amlygiad)<br><br>Mae'r sefyllfa bresennol yn cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU.<br><br>Ffigyrau o ddiwedd mis Medi 2024. |

**Status key:**

- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# WMUK Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol

## Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch3 ac yn y dyfodol

**Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLl yn y cyfnod:**

- GS 22 Gorffennaf 2024PPC
- CBLl 17 Gorffennaf 2024
- CBLl 18 Medi 2024

**Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLl yn y chwarter nesaf:**

- GS 5 Tachwedd 2024
- CBLl 10 Rhagfyr 2024

**Presenoldeb Waystone yn yr Adolygiad Strategol o'r Berthynas:**

- 29 Tachwedd 2024

**Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfnod:**

- Ni fynychodd neb

**Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y chwarter nesaf:**

- Dim ar hyn o bryd.

**Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion Byrddau Pensiwn PPC**

- Ni fynychodd neb

**Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- CPLlL - Ffyniant Bro trafod o amgylch y bwrdd - 18 Medi 2024.

**Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Sesiwn briffio PPC / sesiwn hyfforddi – (Polisïau) 18 Hydref 2024
- Diwrnod Rheolwr PPC – 15/16 Hydref 2024

# WMUK Protocol Ymgysylltu - Busnes fel Arfer

| Adolygu'r Berthynas Strategol | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | ▪ Dwywaith y flwyddyn | ▪ Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletyol a WMUK |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Chris Moore<br>▪ Anthony Parnell<br>▪ Dau Swyddog Adran 151 / Dirprwy Swyddogion Adran 151 | | **Mynychwyr Waystone**<br>▪ Karl Midl, Pen Swyddog y Wlad, DU, a Phrif Swyddog Gweithredol<br>▪ Rachel Wheeler, Pen Swyddog Cynnyrch - Regulated Fund Solutions<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau |
